COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB DYDD LLUN, 3 GORFFENNAF 2023, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd A Williams – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | F D Bletsoe | P Davies | RM Granville |
| M L Hughes | M Jones | RL Penhale-Thomas | T Thomas |
| G Walter | AJ Williams | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

S J Griffiths

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |

61. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD: Ethol y Cynghorydd Alex Williams yn Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol am y flwyddyn ddinesig

62. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Fe wnaeth y Cynghorwyr canlynol ddatgan buddiant personol yn eitem 4 ar yr agenda:

- Y Cynghorydd Heidi Bennett fel un yn gweithio mewn corff sy'n cyflogi arweinwyr cymunedol ac fel aelod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg (CTMRPB);
- Y Cynghorydd Jane Gebbie fel Cadeirydd CTMRPB; a'r
- Cynghorydd Amanda Williams am fod aelod o'r teulu mewn cartref gofal preswyl .

63. ALLDRO CYLLIDEB REFENIW 2022-23

Cyflwynodd Pennaeth Cyllid Perfformiad a Newid yr adroddiad, a diben hwn oedd rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar berfformiad ariannol refeniw y Cyngor yn y flwyddyn yn diweddu yr 31$^{ain}$ o Fawrth 2023.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog, Cyllid Perfformiad a Newid a thrafododd yr Aelodau'r canlynol:

Ar draws y Cyngor

- Amrywiadau yn y gyllideb a chadernid proses gosod y gyllideb.
- Pwysau adnoddau a phwysau cyllidebol a'r angen am gyllid, newid a mewnbwn gan y Llywodraeth ganolog er mwyn cynnal gwasanaethau hanfodol.
- Rheoli perfformiad a data, cywirdeb gwybodaeth a chraffu ar gyfrifon gan Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

- Y posibilrwydd o fenthyca a thynnu i lawr o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd er mwyn sicrhau bod rhai prosiectau yn y Rhaglen Gyfalaf yn mynd yn eu blaen.

Y Gweithlu, Recriwtio a Chadw

- Effaith nifer y swyddi gwag ar Adnoddau Dynol (AD) a'r effaith debygol ar y Gyllideb pe bai'r Cyngor wedi ei staffio'n llawn.
- Y dulliau o hysbysebu swyddi gwag a dulliau recriwtio eraill gan gynnwys datblygu perthynas gydag ysgolion a phrifysgolion.
- Yr amser yr oedd yn ei gymryd i recriwtio ymgeisydd llwyddiannus i swydd a model y partner busnes o ran cydweithio rhwng Adnoddau Dynol a'r Cyfarwyddiaethau.
- Telerau ac amodau cenedlaethol, cyfraddau tâl, gallu'r Awdurdod i gystadlu ag awdurdodau lleol eraill a'r sector preifat a'r potensial ar gyfer trefniadau cydweithredol yn y dyfodol.

Addysg a Chymorth i Deuluoedd

- Nifer yr ysgolion sy'n rhagweld diffyg yn eu cyllidebau, cyfraniad yr Awdurdod Lleol tuag at gostau ynni cynyddol, y posibilrwydd o ddiswyddiadau staff ac effaith nifer y disgyblion ar y gofrestr.
- Pwysau chwyddiant a her recriwtio i'r Gwasanaethau Arlwyo a'r effaith ar ddarparu clybiau brecwast a phrydau ysgol.
- Y ffactorau sy'n cyfrannu at y tanwariant yn y Grŵp Cefnogi Teuluoedd.
- Y lleoedd gwag yn yr Uned Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, yr effaith ar gyflawni a'r hyn y mae'r Awdurdod yn ei wneud i liniaru eu heffaith.
- Cynnig hael yr Awdurdod o gludiant o'r cartref i'r ysgol a'r amserlen debygol ar gyfer cyhoeddi'r Canllawiau gan Lywodraeth Cymru.

Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

- Dibyniaeth ar weithwyr asiantaeth i gyflawni dyletswyddau statudol a chost hynny a'r effaith ar barhad i deuluoedd.
- Rôl Swyddogion Cefnogi Gwaith Cymdeithasol.
- Gorwariant ac amseroedd aros am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, cost gynyddol offer a gwaith a'i effaith ar y gallu i gynorthwyo pobl i fyw'n ddiogel gartref.
- Lle mewn cartrefi gofal a chost y gofal am breswylwyr oedrannus.
- Y ddemograffeg a'r effaith ar y galw a'r angen i sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn ddigonol.
- Amcangyfrif o bwysau cyllidebol yn y dyfodol a phwysigrwydd cost-effeithiolrwydd, arloesi a gwasanaethau ataliol.
- Ailfodelu Gwasanaethau Dydd i bobl hŷn a Gwasanaethau Anabledd Dysgu a'r posibilrwydd o ailfodelu gwasanaethau eraill yn y dyfodol.

Cymunedau

- Heriau recriwtio.
- Cefnogaeth i Atgyfeiriadau Aelodau a ffyrdd o wella effeithlonrwydd Porth yr Aelodau.
- Pwysau cyllidebol a staffio yn yr adran Gynllunio a Datblygu.
- Y cynnig parcio am ddim a chynnal a thrawsnewid trefi.
- Rhesymau dros yr oedi cyn agor Canolfan Ailgylchu Gymunedol y Pîl.

- Diweddariad ynghylch gosod Ravenscourt yn fasnachol.
- Effaith y tanwariant yn y gyllideb Meysydd Chwarae.
- Y rhesymau dros yr oedi yn y Cynllun Caniatáu ar gyfer gwaith ffordd.

Y Prif Weithredwr

- Effaith y peiriannau argraffu a llungopïo ar y gorwariant ar y gyllideb TGCh.
- Risg a chost bosibl ymosodiad seiber posibl.

PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gyda'r Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion a ganlyn:

Ar draws y Cyngor

1. Bod angen i'r holl ymrwymiadau deddfwriaethol cenedlaethol a gwasanaethau statudol gael eu hariannu'n llawn gan y Llywodraeth ganolog a bod y Pwyllgor yn cefnogi'r Cabinet yn llwyr wrth lobïo San Steffan a Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid digonol i sicrhau model ariannu cynaliadwy yn y dyfodol.

2. Er mwyn rheoli disgwyliadau'r cyhoedd o ran y gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol, bod strategaeth gyfathrebu gorfforaethol ragweithiol yn nodi'n glir y pwysau o fewn y gwasanaethau, yr hyn y gellir ac na ellir ei gyflawni/ei gynnal a'r hyn a ariennir gan y Dreth Gyngor a'r hyn a ariennir gan gronfeydd canolog y DU drwy'r Grant Cynnal Refeniw.

3. Ystyried sut i gyfleu'r wybodaeth yn Argymhelliad 2 uchod yn effeithiol i'r cyhoedd, gan gynnwys ystyried rhoi'r wybodaeth ar wefan y Cyngor ac mewn cylchlythyr gyda'r llythyrau yn Galw am Dalu'r Dreth Gyngor.

Addysg a Chymorth i Deuluoedd

4. Bod y Pwyllgor yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn mynegi eu pryderon y byddai unrhyw doriadau pellach i'r gyllideb addysg yn annerbyniol, o ystyried yr arbediad effeithlonrwydd o 2% yn 2023-24 a'r gostyngiadau blynyddol pellach o 1% a ragwelir ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

5. Bod y Pwyllgor yn cydnabod anawsterau recriwtio o fewn y gwasanaethau arlwyo a'r effaith ar ddarparu clybiau brecwast ac yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn oedd yn cael ei wneud i sicrhau bod plant agored i niwed yn cael brecwast cyn yr ysgol.

a gofynnodd y Pwyllgor:

6. Am diweddariad ynglŷn â phryd y câi adolygiad Llywodraeth Cymru o gludiant o'r cartref i'r ysgol yn cael ei gyhoeddi'n realistig, o ystyried na châi unrhyw newidiadau eu hystyried nes i'r adolygiad gael ei gwblhau.

Cymunedau

Gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad canlynol:

7. Ystyried cael adnodd pwrpasol i gefnogi'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau i brosesu ac ymateb i Atgyfeiriadau Aelodau ac ystyried ffyrdd o wneud

Porth yr Aelodau yn fwy effeithiol ac effeithlon ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch statws atgyfeiriadau.

Recriwtio

Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch mater recriwtio a chadw ar draws y Cyngor cyfan ac roedd yn cydnabod, er bod Cyfarwyddiaethau yn gweithio ar hyn ar eu pen eu hunain, ei fod yn teimlo bod angen ymagwedd gorfforaethol oedd yn canolbwyntio ar y 7 Egwyddor yn y Cynllun Corfforaethol.

Felly, argymhellodd y Pwyllgor:

8. Bod angen cynllun gweithlu trosfwaol i fynd i'r afael â'r rhesymau pam nad yw'r Cyngor yn gystadleuol yn fasnachol a beth sydd i gyfrif am ei anallu i recriwtio a chadw staff yn llwyddiannus.

9. Ystyried gweithio mwy integredig rhwng Adnoddau Dynol a'r Cyfarwyddiaethau er mwyn atal Cyfarwyddiaethau rhag ceisio mynd i'r afael â'r mater o recriwtio ar wahân/mewn seilos, a chryfhau swyddogaethau AD yn gyfannol a chyflawni amcanion y Cynllun Corfforaethol trosfwaol.

10. Bod y Cyngor yn gweithio gydag ysgolion i hysbysu myfyrwyr, cyn iddynt ddewis eu pynciau TGAU a Lefel A, ynghylch y rhagolygon gyrfa o weithio i'r Awdurdod Lleol, ar draws ystod eang o broffesiynau ac arbenigeddau ac yn yr un modd gweithio gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg, o ystyried y prinder staff sy'n siarad Cymraeg yn yr Awdurdod. Argymhellwyd hefyd fod y Cyngor yn sefydlu cysylltiadau â phrifysgolion er mwyn sicrhau gweithwyr graddedig a gyrru recriwtio ymlaen yn yr Awdurdod.

11. Dylid cytuno ar lefel genedlaethol o gyflogau a thelerau ac amodau ar gyfer pob swydd mewn llywodraeth leol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn yr un sefyllfa ag awdurdodau lleol eraill a'r sector preifat o ran bod yn gystadleuol.

12. Cynnal adolygiad o'r angen i hysbysebu swyddi dros raddfa benodol mewn papurau newydd cenedlaethol ac a fyddai'r rolau hyn yn denu mwy o ymgeiswyr pe caent eu hysbysebu'n wahanol ac yn fwy lleol, o bosibl.

Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch colli ymgeiswyr llwyddiannus oherwydd yr oedi cyn cael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gofynnai beth oedd y rheswm dros yr oedi ac a oedd unrhyw beth y gellid ei wneud i leihau'r amser aros er mwyn atal ymgeiswyr rhag dod o hyd i waith yn rhywle arall.

64. CYNLLUN CYFLAWNI CYNLLUN CORFFORAETHOL 2023-24 A'R FFRAMWAITH PERFFORMIAD

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad, a phwrpas hwn oedd cynnig Cynllun Cyflawni un flwyddyn ar gyfer y Cynllun Corfforaethol (CPDP) i gefnogi Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor ynghyd â Fframwaith Perfformiad Corfforaethol wedi ei ddiweddaru i gynorthwyo'r Cyngor i fesur cynnydd arno.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Weithredwr, canmolodd y Pwyllgor y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus a'r Swyddog Gwella Corfforaethol am eu gwaith ar y Cynlluniau a'r Fframwaith a bu'r Aelodau'n trafod y canlynol:

- Rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac osgoi dyblygu.
- Pwysigrwydd Dangosyddion Perfformiad penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac amserol (SMART), osgoi gosod gwaelodlin heb fod angen a symudiad posibl tuag at Amcanion a Chanlyniadau Allweddol.
- Rôl aelodau'r cyhoedd a phwysigrwydd cyfathrebu a rheoli disgwyliadau.
- Sicrhau bod y CPDP yn ystyrlon ac yn berthnasol i'r cyhoedd a'r holl staff.
- Yr amserlen a'r camau nesaf a ragwelir ar gyfer y CPDP.
- Y pryderon a nodwyd yn ddiweddar gan Archwilio Cymru, gan gynnwys ansawdd a chywirdeb data.
- Pwysigrwydd data cymesur, clir a llawn gwybodaeth.

PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gyda'r Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion a ganlyn:

13. Ystyried sut y gellir rhaeadru'n effeithiol y rolau a nodir yn adran 'Rwyf i yn …' yn y Fframwaith Perfformiad drafft a sut i'w cyfleu i'r holl staff a'r cyhoedd.

Bod adroddiadau perfformiad yn y dyfodol yn cael eu datblygu i gynnwys trosolwg cyfannol yn ffurf crynodeb gweithredol i grynhoi perfformiad yn glir fel y'i mesurwyd yn erbyn y Cynllun Corfforaethol. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch amser ac ymdrech Swyddogion i gyflwyno data cymhleth a chroesawai wybodaeth gryno a chymesur a allai fod yn fwy cynaliadwy a dylanwadol.

65. ENWEBU HYRWYDDWR RHIANTA CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Swyddog Craffu yr adroddiad oedd yn gofyn i'r Pwyllgor enwebu un Aelod fel ei Hyrwyddwr Rhianta Corfforaethol i gynrychioli'r Pwyllgor fel yr un i gael ei wahodd i gyfarfodydd Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet.

Gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau, ac yn dilyn hynny

PENDERFYNWYD: Enwebu'r Cynghorydd T Thomas fel cynrychiolydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol i eistedd ar wahoddiad yng nghyfarfodydd Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet.

66. YMATEB Y CABINET I ARGYMHELLION Y PWYLLGOR A WNAED PAN GAFODD PENDERFYNIAD Y CABINET YNGHYLCH Y GWASANAETH AILGYLCHU A GWASTRAFF ÔL-2024 EI ALW I MEWN.

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Craffu yr adroddiad, a'i bwrpas oedd cyflwyno i'r Pwyllgor ymateb y Cabinet i'r Argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor pan gafodd Penderfyniad y Cabinet ar 14 Mehefin 2022 ei alw i mewn, mewn perthynas â'r adroddiad am y Gwasanaeth Ailgylchu a Gwastraff Ôl-2024, a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 18 Hydref 2022.

Yn dilyn trafodaethau ynglŷn â'r rhesymau am yr oedi cyn rhoi ateb,

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi ymateb y Cabinet oedd ynghlwm yn Atodiad A yr adroddiad.

67. DIWEDDARIAD AR Y FLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynodd y Swyddog Craffu y Flaenraglen Waith (FWP) yn Atodiad A i'r Pwyllgor ei thrafod a'i hystyried, gan ofyn am unrhyw wybodaeth benodol a nodwyd gan y Pwyllgor i'w chynnwys yn yr eitemau ar gyfer y ddau gyfarfod nesaf, gan gynnwys y bobl y dymunent eu gwahodd i fod yn bresennol. Gofynnodd i’r Pwyllgor nodi unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith gan gofio’r meini prawf dethol ym mharagraff 3.6 a gofynnodd i'r Pwyllgor nodi’r Daflen Monitro Gweithredu Argymhellion i olrhain yr ymatebion i argymhellion y Pwyllgor a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol yn Atodiad B, Dangosfyrddau Perfformiad y Cyfarwyddiaethau yn Atodiadau C, D, E ac F, y Traciwr Rheoleiddio yn Atodiad G a gofynnodd hefyd i’r Pwyllgor nodi y ceid diweddariad pellach am y Traciwr mewn cyfarfod yn y dyfodol er gwybodaeth, yn dilyn adrodd amdano wrth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Gofynnodd y Pwyllgor am i ystyriaeth gael ei rhoi i drefnu adroddiad ynghylch heriau’r gweithlu, recriwtio a chadw, gan osgoi dyblygu gwaith gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i drefnu’r adroddiad ar Ddiogelwch Seiber ar adeg briodol ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Ni nodwyd eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith o ystyried y meini prawf dethol ym mharagraff 3.6, a gellid ailystyried hyn yn y cyfarfod nesaf pan gâi data Perfformiad Chwarter 4 2022-23 ei gyflwyno.

Nid oedd unrhyw geisiadau i gynnwys gwybodaeth benodol yn yr eitem ar gyfer y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo’r Flaenraglen Waith yn Atodiad A yn amodol ar gynnwys yr eitemau uchod ac yn nodi’r Daflen Monitro Gweithredu Argymhellion yn Atodiad B, Dangosfyrddau Perfformiad y Cyfarwyddiaethau yn Atodiadau C, D, E ac F, a’r Traciwr Rheoleiddio yn Atodiad G.

68. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:14